CYNGOR SIR CEREDIGION

GWASANAETH YSGOLION

CORFF LLYWODRAETHOL YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL TALYBONT

4.00 – 5.40 PM, 22 MAWRTH 2023

Yn bresennol (Hybrid):	Bethan Davies (Cadeirydd), Llio Rhys, Y Cynghorydd Catrin M S Davies, Rhian Nelmes, Trish Huws, Helen Ovens, Siwan Evans, Cathryn Lloyd-Williams, Hefin Jones (Pennaeth).
	Pauline Lucas (Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr)

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:			I'w weithredu gan *:
1	**WELCOME:**		
	Y Cadeirydd: Croesawyd pawb i'r cyfarfod. Croesawyd Sioned Morris nôl i'r Ysgol a bu i staff ddiolch iddi am yr holl waith a wnaed yn ystod ei habsenoldeb. Llongyfarchwyd y disgyblion ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Ardal yr Urdd. Diolchwyd i staff ac aelodau'r gymuned am gynorthwyo disgyblion.		
2	**DATGELU BUDDIANT PERSONOL / CYFRINACHEDD:** Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau o'r pwyntiau canlynol:		
	a)	yr angen i ddatgan buddiant dan bob eitem ar yr agenda, neu ymhob trafodaeth yng nghyfarfod y Corff Llywodraethol, lle byddai gofyn iddynt adael y cyfarfod.	
	b)	Caiff unrhyw fuddiant a ddatgelwyd ei gofnodi;	
	c)	bod y materion a drafodir yn y cyfarfodydd yn gyfrinachol hyd nes caiff cofnodion eu cymeradwyo ac na ddylid eu trafod yn gyhoeddus.	
	PENDERFYNWYD nodi'r uchod		
3i	**COFNODION:**		
	Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 10.11.2022 a'u llofnodi gan y Cadeirydd ac anfonwyd copi at Adran y Llywodraethwyr.		
3ii	**AELODAETH O'R CORFF LLYWODRAETHOL:**		

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:		I'w weithredu gan *:
	Nodwyd bod lle gwag ar gyfer Llywodraethwr staff yn parhau.	
4	**COFNODION Y PWYLLGOR:**	
	Nodwyd mad oedd unrhyw bwyllgorau wedi cyfarfod ers y cyfarfod diwethaf.	
5	**CYTUNDEB LEFEL GWASANAETH AR GYFER CEFNOGAETH I LYWODRAETHWYR:**	
	Dosbarthwyd copïau eisoes o'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer Cyrff Llywodraethol i'r Aelodau. Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD**:	
	Prynu'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth o ran Clerc i'r Corff Llywodraethol ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/2024 am gost o £1,109.66	
	Nodwyd y dyddiadau canlynol ar gyfer cyfarfodydd y Corff Llywodraethol yn 2023/2024: Tymor yr Haf (Hybrid): 25/05/2023 Tymor yr Hydref (Hybrid): 09/11/2023 Tymor y Gwanwyn (Hybrid): 20/03/2024	
6	**ADRODDIAD Y PENNAETH:**	
	Roedd copi o adroddiad y Pennaeth eisoes wedi ei ddarparu i Aelodau. Cafwyd trafodaeth ar y canlynol:	
	Cynllun Datblygu Ysgol: Roedd yr Aelodau eisoes wedi derbyn copi o'r cynllun. Nodwyd fod y blaenoriaethau a oedd yn parhau i dderbyn sylw yn cynnwys: Ailffocysu ar rolau arweinyddiaeth gan gynnwys addasu gwaith Cydlynwyr Profiad a Dysgu a swyddogaethau'r corff llywodraethol. Cryfhau dealltwriaeth staff o egwyddorion datblygiad ac asesu a chynllunio cyfleoedd er mwyn gweithredu hyn ar draws y bartneriaeth. Parhau i weithredu'r rhaglen trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol ac adeiladu ar ein darpariaeth llesiant er mwyn sicrhau dycnwch ac iechyd meddwl ac emosiynol cadarn yn ogystal â gwytnwch ymhlith disgyblion, staff ac arweinwyr ysgol. Cryfhau sgiliau darllen Cymraeg er mwyn dylanwadu'n bositif ar sgiliau llafar ac ysgrifenedig. **Monitro**: Yn Parhau, Roedd Rhian Nelmes wedi ymweld â'r Ysgol i fonitro. Gwahoddwyd Aelodau i ymweld â'r Ysgol ar 20 Ebrill i fonitro Anghenion Dysgu Ychwanegol a bydd dysgu gwahaniaethol yn rhan o Ymweliad 2 a gynhaliwyd gan yr Ymgynghorydd Cefnogi Ysgolion. Bu i Swyddogion yr Awdurdod Lleol fonitro darllen grŵp a bwriedir dadansoddi'r Holiadur Llesiant.	

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:		I'w weithredu gan *:
	Llongyfarchwyd Sara Hughes ar gael ei dewis ar lefel genedlaethol i ffilmio fidio ar rifedd. Llongyfarchwyd Llio Rhys ar ei gwaith ar Llesiant. Er bod llawer o waith codwyd proffil yr Ysgol. **Cyllid**: Nodwyd y bu cynnydd yn y costau egni a chostau staffio ac y mae trafodaethau yn parhau gyda'r Undebau. Gofynnodd Aelod a fyddai'r Awdurdod Lleol yn medru cynorthwyo Ysgol gyda chost egni. Nodwyd gan yr Aelod lleol nad oedd hi'n ymwybodol o unrhyw grantiau oedd ar gael. Bu trafodaeth ar leihau'r dosbarthiadau i 3, ond nid oedd yr aelodau'n gefnogol o hyn oni bai nad oedd opsiynau eraill ar gael. Bydd angen torri oriau staff o fis Medi 2023 er mwyn gwneud arbedion. Gofynnodd Aelod a ellir siarad a staff i weld a hoffai rhai leihau eu horiau a'u hysbysu o'r sefyllfa. Nodwyd y bydd y Pennaeth yn trafod y mater gydag Adran Adnoddau Dynol yr Awdurdod Lleol er mwyn cael cyngor ar y mater. **PENDERFYNWYD** y bydd y Pennaeth, Catrin M S Davies, Helen Ovens a Cathryn Lloyd Williams yn aelodau o'r Pwyllgor Staffio. Bydd angen torri oriau gwaith o fewn y staff ategol, a bydd hyn yn effeithio ar Lefel 1 y Cynorthwywyr Dosbarth. Caiff 18 awr eu torri'n naturiol a bydd angen torri 42 awr ychwanegol. Gofynnodd Aelod sut y byddai hyn yn effeithio ar ddisgyblion am y bu trafodaethau eisoes ar lwyth gwaith, cefnogaeth emosiynol ac addysgol. Nodwyd y bydd angen torri oriau a gwneud newidiadau. **PENDERFYNWYD** y bydd y Pennaeth, Bethan Davies, a Siwan Evans yn Aelodau o'r Pwyllgor Staffio. **Iechyd a Diogelwch, Adeiladau ac Eiddo**: **PENDERFYNWYD** nodi y cwblhawyd yr Archwiliad Iechyd a Diogelwch a'i ddychwelyd i'r Awdurdod Lleol. Gosodwyd goleuadau synhwyro symudiadau y tu allan i'r Ysgol ac roeddent yn gweithio'n dda.	
6ii	**CYFRIF ARIANNOL PREIFAT YR YSGOL:**	
	PENDERFYNWYD nodi nad oedd gan yr Ysgol gyfrif o'r fath.	
6iii	**TRUST FUNDS**:	
	PENDERFYNWYD caniatáu'r Pennaeth i dynnu allan £600 o Gronfa Ymddiriedolaeth WL Rees er mwyn cynorthwyo â chostau gwersi nofio yn ystod tymor y haf.	
7	**HYFFORDDIANT LLYWODRAETHWYR:**	
	Nodwyd fod y Cadeirydd wedi cwblhau hyfforddiant Atal ac Asbestos.	

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:		I'w weithredu gan *:
	Bydd y Pennaeth yn mynd i'r hyfforddiant ar 23.03.2023.	
8i	**POLISÏAU – DOGFENNAU STATUDOL:**	
	PENDERFYNWYD nodi fod y dogfennau statudol canlynol ar gael yn yr Ysgol: Adroddiad Blynyddol Rhieni / Llywodraethwyr Cofrestr Buddiannau Busnes– RP1/2 (ffurflen ar *Teams*) Cynllun Datblygu Ysgol Llyfryn / Prosbectws yr Ysgol Adroddiad Hunan-Werthuso'r Ysgol **Adolygu'r newidiadau:** Cynllun Hygyrchedd (bob 3 blynedd) Cynllun Gweithredu yn dilyn arolygiad ysgol Trefniadau Asesu (statudol ar gyfer diwedd y Cyfnod Sylfaen a CA2/3) Cynllun Cyhoeddi Rhyddid Gwybodaeth Offeryn Llywodraethu Cofnodion a Phapurau Cyfarfodydd a Phwyllgorau'r Corff Llywodraethol Cofrestr Disgyblion Cynllun Trawsnewid.	
8ii	**POLISI CYFLOG ATHRAWON**:	
	Roedd Aelodau eisoes wedi derbyn copi o'r polisi. **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r polisi.	
8iii	**CANLLAWIAU MEWN ARGYFWNG A CHYDNERTHEDD**:	
	PENDERFYNWYD nodi'r mater yma ar yr Agenda ar gyfer cyfarfod llawn nesaf y corff llywodraethol.	
9	**GOHEBIAETH / MATERION PERSONOL:**	
	Derbyniwyd gohebiaeth oddi wrth Cylch Meithrin Talybont yn gofyn i ddefnyddio mwy o'r ardal allanol am fod pwyslais ar ddysgu y tu allan. Roeddent yn hapus i drafod rhentu'r tir. Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** eu llongyfarch ar eu llwyddiant a chytuno i'w cais gan ofyn am gyfraniad tuag at y costau egni a ddefnyddiwyd. Derbyniwyd e-bost oddi wrth Lee Waters AS, ynglŷn â thraffig y tu allan i'r Ysgol. Ni fu i'r asesiad ar groesffordd i gerddwyr gyflawni'r meini prawf ar gyfer croesfan. Gwnaed asesiad sgrinio a daethpwyd i'r casgliad fod anawsterau peirianyddol.	

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:		I'w weithredu gan *:
	Bydd y terfyn cyflymder ar yr A487 Talybont a Taliesin yn gostwng i 20mya pan fydd y newidiadau ar y terfynau amser yn dod i rym ar 17 Medi 2023. Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** ysgrifennu eto at y Llywodraeth yn gofyn iddynt eto i weithredu ar ein pryderon. Caiff gohebiaeth ei hanfon oddi wrth y Cadeirydd, Aelodau Lleol, Cylch Meithrin, Cymdeithas Rhieni Athrawon, yr Ysgol a'r Clwb ar ôl Ysgol.	
10	**UNRHYW FATER ARALL A GYFLWYNWYD YMLAEN LLAW:**	
	Nodwyd bod Meinir Ebbsworth yn ymddiswyddo fel Swyddog Arweiniol Corfforaethol. Bu'n gefnogol i holl Ysgolion yn ystod cyfnod anodd iawn a diolchwyd iddi am bopeth y mae wedi ei wneud.	
11	**DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:**	
	PENDERFYWYD nodi y cynhelir cyfarfod llawn nesaf y Corff Llywodraethol ar 25.05.2023.	

PL
23:03:2023

Cadeirydd: …….. 25.05.2023